

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Ysgol Eifionydd

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn cynnwys amrediad o bynciau perthnasol i fyf Celf a Dylunio.

Gweler yr enghreifftiau isod: **UNEDAU GORFODOL:**

Uned 1 – Cyfeiriadau Cyd-destunol mewn Celf a Dylunio.

Uned 2 – Cyfathrebu gweledol 2D

Uned 3 – Cyfathrebu gweledol 3D.

Ynghyd ag **UN** o'r opsiynau canlynol.

Uned 4 – Defnyddio syniadau i ymchwilio, datblygu a chynhyrchu Celf a Dylunio.

Uned 7 – Gweithio gyda briffiau dylunio graffeg.

Uned 10 – Gweithio gyda briffiau tecstilïau.

Uned 11 – Gweithio gyda briffiau dylunio 3D

Sut fyddai'n dysgu?

Byddwch yn dysgu drwy amrywiaeth o weithgareddau a dulliau dysgu cyfredol yn cynnwys aseiniadau gyda cyswllt galwedigaethol i bob gweithgaredd.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Fe gewch eich asesu gydol y cwrs drwy'r aseiniadau fydd yn cael eu rhoi i chi. Nid oes unrhyw arholiad o fewn y cwrs hwn. Mae'r cwrs hwn cyfwerth â 2 radd TGAU A*-C a bydd y disgyblion yn derbyn, Llwyddo, Teilyngdod neu Rhagoriaeth yn y pwnc. Bydd angen ymdrech a safon gyson drwy gydol y cwrs yma i gyrraedd y cymhwyster.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Bydd y cwrs hwn yn eich cynorthwyo i astudio Celf a Dylunio yn y 6ed dosbarth neu Goleg. Fe allwch ystyried astudio'r pwnc i safon Lefel A / AS neu gwrs BTEC pellach.

Syniadau am swyddi

- Artist sydd yn creu gwaith cyhoeddus,
- Astudiaethau archeolegol,
- Artist,
- Argraffydd,
- Gwneuthurwr Hetiau,
- Cynllunydd Tecstilïau,
- Cynllunydd Ffasiwn,
- Dylunydd Graffeg,
- Pensaer,
- Dylunydd mewnol,
- Cynhyrhydd Fideo,
- Ffotograffiaeth,
- Cynllunydd gwisgoedd,
- Athro,
- Gwaith mewn ffilm,
- Creu "special effects",
- Dylunydd Cynnyrch,
- Graffeg cyfrifiadurol,
- Gwaith gyda plant,
- Trin Gwallt,
- Darlunydd e.e. darlunydd llyfrau.
- Arbenigwr celf mewn oriel neu amgueddfa.

Beth fyddai angen?

Gellid prynu llyfr braslunio A3 a portffolio A3 gan yr Adran Gelf.

Cyflwynir y cwrs gan Miss Sioned Williams

